Craffu - Ymgysylltu heddiw, Llunio yfory - Scrutiny - Engaging today, Shaping tomorrow


Crynodeb o Adroddiad Ymchwilio gan:

**Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**


# CHWARAEON CYMUNEDOL YNG NGHAERDYDD: CRYNODEB PARTNERIAETHAU CHWARAEON RHANBARTHOL

**Ionawr 2022**

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS

**CYNNWYS**......2
**RHAGAIR**......3
**CYLCH GORCHWYL**......5
**Y DULL A DDEFNYDDIWYD**......6
**CANFYDDIADAU ALLWEDDOL**......8
**ARGYMHELLION**......19

# RHAGAIR

*Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn bwysig er mwyn gwella iechyd a lles a gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol. Mae Chwaraeon Cymunedol yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pobl i fod yn gorfforol egnïol a chlywodd yr Ymchwiliad hwn hefyd ei fod yn helpu i gynyddu cydlyniant cymunedol, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu, yn ogystal â chynorthwyo dysgu gydol oes.*

*Mae Caerdydd yn ffodus bod ganddi dîm ymroddedig a brwdfrydig o wirfoddolwyr sy'n cefnogi dros 400 o glybiau chwaraeon cymunedol yn y ddinas. Rydym hefyd yn elwa ar Gyd-fenter arloesol rhwng Cyngor Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, gan alluogi Chwaraeon Caerdydd i weithio gyda phartneriaid i greu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae'r Pwyllgor hwn wedi derbyn adroddiadau diweddaru ar Chwaraeon Caerdydd yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cynnydd a wneir o ran denu mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym yn falch o nodi llwyddiant yn y meysydd hyn.*

*Penderfynodd yr Aelodau gynnal yr Ymchwiliad hwn yn sgil pryderon a godwyd gyda'r Pwyllgor y gallai cynigion ar gyfer Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol danseilio'r gwaith llwyddiannus yng Nghaerdydd. Dechreuom yr Ymchwiliad gyda meddwl agored, gyda'r nod o ddysgu gwersi gan y mabwysiadwr cynnar Chwaraeon Gogledd Cymru a nodi'r hyn yr oedd angen i Gyngor Caerdydd ei wneud i baratoi ar gyfer newidiadau.*

*Clywsom gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, Chwaraeon Caerdydd, a Chwaraeon Cymru, yn ogystal â'r Cynghorydd Bradbury, yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, ac uwch swyddogion. Rydym yn ddiolchgar i'r holl dystion am eu parodrwydd i ymgysylltu, ac am fod yn agored ac eglur ynglŷn â'u safbwyntiau ar gynigion. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol eraill hefyd ym Mhartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol (PChR) Canolbarth y De arfaethedig i roi eu barn i'r Ymchwiliad. Yn anffodus, roeddent yn teimlo na allent gyfrannu ar hyn o bryd, gan eu bod yn aros am eglurhad gan Chwaraeon Cymru ar agweddau allweddol y cynigion.*

*Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, mae'r Ymchwiliad hwn yn dod i'r casgliad bod PChR Canolbarth y De arfaethedig yn fygythiad gwirioneddol i'r arfer da sydd wedi'i wreiddio yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Rydym yn siŵr nad dyma fwriad Chwaraeon Cymru, sy'n dymuno gweld mwy o bobl ledled Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.*

*Ein dewis clir yw cynnal y status quo; mae ein dull presennol yn cyflawni, ac yn rhoi hwb i ymgysylltiad a chyfranogiad ymhlith y bobl fwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, os nad yw cynnal y status quo yn ymarferol, yna mae'n hanfodol lleihau ôl troed y PChR a cheisio eglurder ynghylch trefniadau llywodraethu. Mae'r angen i ymgysylltu â gwleidyddion yn hollbwysig, ac roedd yr Ymchwiliad hwn yn falch o nodi parodrwydd pob plaid i gymryd rhan yn hyn.*

*Hoffwn ddiolch i'r Cynghorydd Iona Gordon am ei chyfraniadau i'r Ymchwiliad hwn a'n Prif Swyddog Craffu, Angela Holt, am ei chefnogaeth broffesiynol i ddod â hyn i gyd at ei gilydd.*

*Dyma fy Adroddiad Ymchwiliad diwethaf fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn a hoffwn ddiolch i aelodau fy mhwyllgor, blaenorol a phresennol, am y ffordd y maent wedi fy nghefnogi yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd, yn ogystal â'r Swyddogion Craffu sydd wedi gwneud y cyfan yn bosibl.*

*Er mwyn i waith craffu fod yn effeithiol, mae angen i'r weinyddiaeth fod yn barod i ymgysylltu â ni ac i'n hystyried yn gyfaill beirniadol. Bu hyn yn wir o ran fy mhwyllgor i, gydag Aelodau'r Cabinet a Swyddogion yn ymgysylltu'n frwd â ni ac yn ymateb yn gadarnhaol i'n sylwadau a'n hargymhellion.*

*Rydym yn ffodus yng Nghaerdydd bod gennym Wasanaeth Craffu hynod effeithlon a phroffesiynol sy'n arwain y ffordd yn y modd y mae'n cefnogi craffu yng Nghaerdydd. Gobeithiaf y bydd gweinyddiaethau'r dyfodol yn cydnabod y ffaith hon ac yn parhau i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar y Pwyllgor er mwyn parhau i graffu'n effeithiol.*



**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**

**Chwefror 2020**

# CYLCH GORCHWYL

- Archwilio rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol Canolbarth y De arfaethedig Chwaraeon Cymru i ddeall:
    - Hynt y gwaith hyd yma o ddatblygu model rhanbarthol
    - Trefniadau arfaethedig y model rhanbarthol mewn perthynas â strwythur, llywodraethu, ariannu a gweithredu
    - Rhyngwyneb rhwng chwaraeon cymunedol a'r model rhanbarthol
    - Beth yw llwyddiant?

- Ystyried y rhaglen beilot Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yng Ngogledd Cymru:
    - Deall y gwersi a ddysgwyd yn sgil y rhaglen beilot
    - Nodi gwersi sy'n berthnasol i ranbarth Canolbarth y De

- Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad i:
    - cynnal dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau rhaglen arfaethedig Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol Canolbarth y De
    - nodi'r hyn y mae angen i Gyngor Caerdydd ei wneud i baratoi.

- Casglu barn rhanddeiliaid ar yr uchod, gan gynnwys partneriaid, awdurdodau lleol eraill sydd wedi'u cynnwys yn rhanbarth Canolbarth y De ac Aelodau perthnasol o'r Cabinet a swyddogion Cyngor Caerdydd.

- Gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Cabinet ynghylch rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol Chwaraeon Cymru.

# Y DULL A DDEFNYDDIWYD

M1. Cynhaliodd yr Aelodau'r Ymchwiliad hwn yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021.

M2. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb a chyfrannu at drafodaeth banel:

- Y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet - Diwylliant a Hamdden
- Neil Hanratty – Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Steve Morris – Rheolwr Gweithredol – Chwaraeon, Hamdden a Datblygu.

M3. Cafodd yr Aelodau dystiolaeth hefyd gan y rhanddeiliaid allanol canlynol:

- Laura Williams – Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwaraeon, Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Ben O'Connell – Cyfarwyddwr Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Brian Davies – Prif Weithredwr Dros Dro, Chwaraeon Cymru
- Graham Williams – Cyfarwyddwr, Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau.

M4. Ysgrifennodd y Gwasanaethau Craffu at yr awdurdodau lleol eraill yn ardal partneriaeth chwaraeon ranbarthol Canolbarth y De, gan gynnig cyfle iddynt gyfrannu at yr Ymchwiliad drwy rannu eu barn ar y dull partneriaeth arfaethedig. Roedd yr Aelodau'n arbennig o awyddus i ddeall eu safbwyntiau. I ddechrau, nododd awdurdodau lleol yr hoffent gyfrannu. Fodd bynnag, yn dilyn canslo cyfarfod rhyngddynt hwy a Chwaraeon Cymru ddechrau mis Tachwedd, gwrthododd yr awdurdodau lleol gyfrannu gan eu bod wedi gobeithio cael eglurder gan Chwaraeon Cymru ar statws presennol y dull partneriaeth ranbarthol cyn gwneud sylwadau a gan na chawsant hyn, roeddynt yn teimlo na fyddai eu sylwadau'n ystyrlon nac yn ddefnyddiol.

M5. Er mwyn llywio'r Ymchwiliad, rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau yn manylu ar y cyd-destun polisi, cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru, a chyhoeddiadau Chwaraeon Cymru sy'n berthnasol i Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol.

M6. Defnyddiwyd y dystiolaeth i nodi canfyddiadau addas o'r Ymchwiliad.

# CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

**Rhesymau dros Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol**

KF1. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gyda chanlyniadau penodol i roi hwb i weithgarwch corfforol i bawb ac annog mwy o'r bobl fwyaf anghenus neu ddifreintiedig i gymryd rhan. Mae tystiolaeth yn dangos bod menywod a merched, pobl ag anabledd, y rhai sy'n byw mewn tlodi neu o gefndir du, Asiaidd neu leiafrif ethnig yn llawer llai tebygol o fod yn egnïol neu gymryd rhan mewn chwaraeon fwy na 3 gwaith yr wythnos.

KF2. Mewn ymateb i hyn, ymgysylltodd Chwaraeon Cymru yn gynhwysfawr i lywio ei Weledigaeth newydd ar gyfer Chwaraeon. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, edrychodd Chwaraeon Cymru ar fodelau partneriaethau chwaraeon rhanbarthol sy'n cael eu defnyddio yn Lloegr, yr Alban a Seland Newydd a datblygodd fodel wedi'i addasu y credant sydd fwyaf addas ar gyfer Cymru. Yn dilyn dadansoddiad o achosion busnes, cynigiodd Chwaraeon Cymru rannu Cymru yn bum rhanbarth, gyda Chaerdydd wedi'i chynnwys ym Mhartneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr, Merthyr, Rhondda Cynon Taf, a Bro Morgannwg.

KF3. Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol yw'r dull y bydd Chwaraeon Cymru yn ei ddefnyddio i gyfeirio ei gyllid ar gyfer chwaraeon cymunedol mewn dull hirdymor. Mae Chwaraeon Cymru yn amcangyfrif y bydd gwerth tua £12miliwn o adnoddau fesul Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol dros 5 mlynedd.

**Y Rhesymeg dros Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol**

KF4. Dywedodd Chwaraeon Cymru nad yw'r ffyrdd presennol o weithio yn ddigonol i gyflawni'r newid sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru ac y gall Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol gyflawni graddfa'r newid sydd ei hangen. Mae'n ddull newydd sy'n adeiladu ar lwyddiant y dulliau presennol, yn hyrwyddo dull cydweithredol sy'n seiliedig ar fewnwelediad ac asedau ac yn galluogi dysgu ar y cyd. Yn ogystal, gellir defnyddio'r Partneriaethau i hybu proffil chwaraeon, gan ddangos ei werth ychwanegol wrth fynd i'r afael nid yn unig ag iechyd a lles corfforol a meddyliol, ond cydlyniant cymunedol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu, datblygu sgiliau, a dysgu gydol oes.

KF5. Yn ogystal, mae Chwaraeon Cymru yn credu bod Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol yn golygu y gellir datblygu un cynllun ar gyfer rhanbarth, a fydd yn cynorthwyo gweithio mewn partneriaeth a'r gallu i ddenu arian ychwanegol, yn ogystal â'r gallu i ganolbwyntio ar y lefel leol, o ran ymgysylltu â chymunedau a phobl leol a thargedu buddsoddiad yn greadigol i ddarparu'r ddarpariaeth gywir o wasanaethau. At hynny, maent yn rhoi cyfle i alinio adnoddau a thrwy hynny wella cyllid, yn ogystal â'r cyfle i gymryd mwy o berchenogaeth o arian y Loteri Genedlaethol.

KF6. Yn y pen draw, dywedodd Chwaraeon Cymru fod Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol yn dod â'r cyfle i roi hwb i weithgarwch corfforol a chynyddu cyfranogiad. Clywodd yr Aelodau fod yr angen am hyn wedi'i ddwysáu gan effaith y pandemig Covid.

KF7. Mae'r broses o sefydlu Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol wedi dechrau. Mae Chwaraeon Gogledd Cymru yn fyw, gyda gwaith yn mynd rhagddo yn Nyfed, Powys a Gwent. Yn ardal Canolbarth y De, cyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb gan gonsortiwm llac o bob un o'r pum awdurdod lleol, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y ddau fwrdd iechyd lleol a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, gyda'r olaf yn sefydliad arweiniol. Nid yw'r Datganiad o Ddiddordeb yn gyfrwymol.

KF8. Ni fynegodd tystion eraill i'r Ymchwiliad lawer o'r manteision a nodwyd uchod ond cytunwyd, o'u hysgogi gan Yr Aelodau, y byddai'r partneriaethau'n galluogi partneriaid i rannu a dysgu oddi wrth ei gilydd, er bod rhai tystion yn cwestiynu a oes angen endid newydd cyfan i gyflawni hyn.

## Pryderon am Bartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol

KF9. Canfu'r Ymchwiliad fod cydnabyddiaeth ymhlith tystion o'r angen am newid, gyda chwaraeon yng Nghymru yn wynebu llai o adnoddau oherwydd gostyngiadau yng nghyllid cyffredinol gan y llywodraeth. Fodd bynnag, canfu'r Ymchwiliad nifer o bryderon hefyd am y Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol arfaethedig. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar y model cyffredinol, y broses weithredu ac effaith bosibl partneriaethau chwaraeon rhanbarthol.

### Model Cyffredinol – llywodraethu ac ôl troed

KF10. O ran y model cyffredinol, canfu'r Ymchwiliad bryderon ynghylch llywodraethu a'r ôl troed rhanbarthol arfaethedig. Yn fwriadol, nid yw Chwaraeon Cymru wedi darparu fframwaith llywodraethu i alluogi partneriaethau i benderfynu ar y strwythur gorau ar gyfer eu hardal. Fodd bynnag, canfu'r Ymchwiliad fod diffyg fframwaith llywodraethu yn achosi pryder i gyfranogwyr. Nid yw'r Aelodau'n argyhoeddedig bod hwn yn ddull ymarferol ar gyfer pob ardal yng Nghymru, yn enwedig ardal fel Canolbarth y De sydd â nifer o gyfranwyr i'r Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol. Felly **mae'r Ymchwiliad hwn yn dod i'r casgliad bod angen mwy o ganllawiau gan Chwaraeon Cymru i gynorthwyo partneriaid i benderfynu ar y trefniadau llywodraethu gorau.**

KF11. Clywodd yr Ymchwiliad hefyd bryderon ynghylch y ffaith bod y broses o wneud penderfyniadau mewn Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol yn seiliedig ar un bleidlais gyfartal, a allai arwain at gyllid yn symud o rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd pe bai aelodau eraill o'r bartneriaeth yn blaenoriaethu anghenion eraill. **Er mwyn osgoi hyn, daw'r Ymchwiliad hwn i'r casgliad ei fod yn gwneud synnwyr i'r broses o wneud penderfyniadau gydnabod poblogaethau'r ardaloedd dan sylw ac i gymarebu pleidleisiau yn unol â hynny.**

KF12. O ran yr ôl troed rhanbarthol, roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys bod yr ardal dan sylw yn rhy fawr ac yn rhy amrywiol i weithio'n gydlynol mewn un bartneriaeth. Mae rhanbarth Canolbarth y De yn cwmpasu ardal lle mae tua miliwn o bobl yn byw, ac mae tystion yn pryderu bod hynny'n ei gwneud yn rhy fawr i ddarparu rhaglenni chwaraeon cymunedol lleol wedi'u targedu'n briodol, sydd eu hangen i roi hwb i ymgysylltiad a chyfranogiad. Yn ogystal, mae'r pum ardal awdurdod lleol yn amrywiol, gyda heriau a rhwystrau gwahanol yn wynebu eu poblogaethau o ran dod yn egnïol a chymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol. Mynegwyd pryderon i'r Ymchwiliad y gallai'r Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol ei chael yn anodd dyrannu adnoddau sy'n lleihau i flaenoriaethau yr un mor ddilys ond gwahanol. **Gallai hyn olygu bod cymunedau yng Nghaerdydd yn cael llai o adnoddau o gymharu â'r ddarpariaeth bresennol, gyda llai o ymgysylltu a chyfranogiad, sef y gwrthwyneb uniongyrchol i nodau'r partneriaethau chwaraeon rhanbarthol**.

KF13. Eglurodd Chwaraeon Cymru y byddai'n dwyn partneriaid rhanbarthol i gyfrif er mwyn sicrhau bod anghenion dinasyddion yn cael eu diwallu'n deg, gan ddefnyddio ystod o ddata i sicrhau hyn. Ychwanegodd Chwaraeon Cymru ei fod yn gweld Partneriaethau

Chwaraeon Rhanbarthol fel cyfle i Gaerdydd arwain ar y gwaith a wneir gyda chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a dod â'u mewnwelediad, eu gwybodaeth a'u deallusrwydd lleol i'r amlwg. Roedd hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwaith yn rhanbarth y mabwysiadwr cynnar, Chwaraeon Gogledd Cymru, yn dangos yr angen i gynnal trafodaethau ar sail tystiolaeth ynghylch anghenion penodol ac i weithio ar draws y bartneriaeth i adeiladu ymrwymiad i ddiwallu'r anghenion hyn.

KF14. Clywodd yr Ymchwiliad bryderon hefyd y byddai'r bartneriaeth yn anymarferol gan ei bod yn cwmpasu dwy ardal bwrdd iechyd lleol ac yn torri ar draws y dirwedd chwaraeon bresennol. Mae gan y byrddau iechyd lleol flaenoriaethau a dulliau gweithredu gwahanol, yn seiliedig ar ddiwallu anghenion amrywiol eu poblogaethau, sy'n golygu y byddai angen i ranbarth Canolbarth y De ddatblygu dau gynllun ar wahân, a fyddai'n creu rhaniad. Cadarnhaodd Chwaraeon Cymru fod Canolbarth y De wedi codi'r mater o sut i gydgysylltu ar draws dwy ardal Bwrdd Iechyd a'i fod yn ymwybodol o'r farn y byddai'n well addasu'r model rhanbarthol, gan ei rannu'n ddau yn seiliedig efallai ar ardaloedd y Byrddau Iechyd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr opsiwn hefyd o greu is-bartneriaethau o fewn y bartneriaeth gyffredinol.

KF15. O ran y tirlun chwaraeon presennol, clywodd yr Ymchwiliad fod darpariaeth chwaraeon cymunedol yn elwa ar berthynas a ffurfiwyd gyda chlybiau chwaraeon elît mewn ardal leol. Mae Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De arfaethedig yn torri ar draws rhai o'r meysydd a gwmpesir gan glybiau chwaraeon elît, a allai ei gwneud yn fwy cymhleth i reoli'r rhyngwyneb rhwng chwaraeon elît a chymunedol, er anfantais i'r ddarpariaeth.

KF16. Ar ôl ystyried y pryderon uchod ac ymateb Chwaraeon Cymru, **daw'r Ymchwiliad i'r casgliad, mewn amgylchedd o adnoddau gostyngol, y bydd yn anodd cydbwyso blaenoriaethau ar draws rhanbarth mor amrywiol, gan fod pob un ohonynt yn flaenoriaethau dilys gyda seiliau tystiolaeth cryf**. Ategir y farn hon gan y gwahanol agendâu a fabwysiadwyd gan y ddau fwrdd iechyd sy'n anelu at ddiwallu anghenion iechyd a lles eu poblogaethau. **Felly, mae gan Aelodau bryder gwirioneddol y bydd yr hyn a wnawn ar hyn o bryd yng Nghaerdydd yn cael ei wanhau, na ellir caniatáu iddo ddigwydd, i'r unigolion y bydd hyn yn effeithio arnynt, eu cymunedau, lles cyffredinol Caerdydd a'r costau canlyniadol i wasanaethau cyhoeddus, megis iechyd, os caiff mesurau ataliol megis chwaraeon cymunedol eu lleihau**.

KF17. Mae'r Ymchwiliad yn canfod bod y pryderon am y model a'r ôl troed arfaethedig yn rhwystr gwirioneddol wrth symud ymlaen gyda Phartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol Canolbarth y De. Mae'n amlwg bod amharodrwydd i ymrwymo i Bartneriaeth gyda'r ôl troed rhanbarthol presennol. Mae'r pwyntiau hyn, ynghyd â'r ffaith y bydd yr ôl troed yn ymestyn ar draws rhwydweithiau presennol rhwng darpariaeth chwaraeon elitaidd a chymunedol yn effeithio ymhellach ar y ddarpariaeth chwaraeon cymunedol, yn golygu y **daw'r Ymchwiliad hwn i'r casgliad y byddai'n well peidio â mabwysiadu'r model rhanbarthol. Fodd bynnag, pe bai rhaid inni wneud hynny, yna byddai'n ddoeth addasu'r model rhanbarthol.**

KF18. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth fod Chwaraeon Cymru yn cydnabod bod trafodaeth barhaus ynghylch yr ôl troed rhanbarthol, a bod ardal wreiddiol Dyfed Powys wedi'i rhannu yn dilyn pryderon a fynegwyd gan gyfranogwyr. Mae'r Ymchwiliad yn credu y dylai fod yn bosibl i Chwaraeon Cymru wneud yr un peth ar gyfer ardal Canolbarth y De ag sydd ganddo ar gyfer Dyfed Powys, a fyddai'n arwain at saith Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol ledled Cymru, sy'n dal i alluogi arbedion maint i gael eu gwireddu.

**Y Broses Weithredu**

KF19. Clywodd yr Ymchwiliad bryderon gan dystion am y diffyg goruchwyliaeth wleidyddol a mewnbwn i weithrediad Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol Canolbarth y De yn ogystal â phryderon am y diffyg amserlen glir ar gyfer gweithredu.

KF20. Mae'r Ymchwiliad wedi canfod diffyg ymgysylltu ag Aelodau Cabinet Cyngor Caerdydd i drafod y dull arfaethedig a'r manylion am Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol Canolbarth y De. Nododd Chwaraeon Cymru mai ei rôl yw trafod ac archwilio ffyrdd adeiladol ymlaen ac eglurodd ei fod yn hapus i siarad ag Aelodau'r Cabinet ac aelodau lleol, mewn modd cydweithredol, ochr yn ochr â swyddogion. Dywedodd ei fod wedi cyfarfod ag Aelodau Cabinet mewn rhannau eraill o Gymru, lle nad yw partneriaethau chwaraeon rhanbarthol wedi bod yn broblem wleidyddol.

KF21. Canfu'r Ymchwiliad fod teimlad nad oedd Chwaraeon Cymru yn deall tirwedd yr awdurdod lleol yn ardal Canolbarth y De, sy'n cael ei arwain gan aelodau etholedig yn fwy nag mewn awdurdodau lleol eraill.

KF22. Tynnodd Chwaraeon Cymru sylw at y ffaith mai'r diffyg mandad gwleidyddol, yn eu barn hwy, yw'r rhwystr allweddol, a'u bod yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â hyn. **Mae'r Aelodau'n cytuno bod mewnbwn gwleidyddol yn allweddol ac yn falch o glywed bod Chwaraeon Cymru yn agored i gyfarfod ag Aelodau'r Cabinet mewn modd adeiladol;** bydd meithrin perthnasoedd cadarnhaol o fudd i bawb.

KF23. O ran yr amserlen ar gyfer cyflwyno Partneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol, clywodd yr Ymchwiliad fod y llinell amser wreiddiol ar gyfer sefydlu partneriaeth ranbarthol wedi llithro, oherwydd pandemig Covid. Nid oedd rhai tystion bellach yn glir ar y llinell amser. Eglurodd Chwaraeon Cymru nad ydynt am orfodi llinell amser. Fodd bynnag, bydd y rhai nad ydynt mewn partneriaeth chwaraeon ranbarthol ar ei hôl hi o ran cyflawni yn erbyn agenda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, er nad oes llinell amser sefydlog, mae diwedd i'r ffordd.

KF24. Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'n digwydd pe baem yn cyrraedd pen draw'r ffordd ond nid oes cytundeb. Esboniodd Chwaraeon Cymru nad yw'n bwriadu dargyfeirio cyllid Canolbarth y De mewn mannau eraill gan fod y cyllid ar gyfer y dinasyddion sy'n byw yn y rhanbarth. Byddai Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod strwythur ar waith i ddarparu ar gyfer y dinasyddion hynny. Mae'r Ymchwiliad hwn **wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddefnyddiol cael llinell amser gytûn, er mwyn rhoi hwb i ddod o hyd i atebion**.

**Effaith Bosibl**

KF25. Clywodd yr Ymchwiliad hwn bryderon ynghylch effaith bosibl partneriaeth chwaraeon ranbarthol, o ran lleihau adnoddau a lleihau'r gweithio mewn partneriaeth leol a gwybodaeth gymunedol.

KF26. Clywodd yr Ymchwiliad y gallai cyflwyno partneriaethau chwaraeon rhanbarthol arwain at gyrff cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn lleihau adnoddau mewn chwaraeon, drwy dorri swyddi swyddogion a lleihau cyfraniadau o fath arall. Yn ogystal, mynegwyd pryderon nad yw buddsoddiadau partneriaeth chwaraeon ranbarthol o bosibl yn cael yr un gwerth am arian yn rhanbarthol ag a gyflawnir ar hyn o bryd, oherwydd lefelau is o weithio mewn partneriaeth leol a gwybodaeth gymunedol. Yn olaf, mynegwyd pryderon y gallai arian gael ei ddargyfeirio o Gaerdydd, er gwaethaf lefelau uchel o angen.

KF27. Archwiliodd yr Ymchwiliad y pryderon hyn gyda Chwaraeon Cymru, ac roedd yn amlwg eu bod yn ceisio diogelu cyllidebau rheng flaen mewn sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau lleol, a diogelu'r ddarpariaeth chwaraeon cymunedol mewn cyfnod o leihau adnoddau, drwy gydgysylltu adnoddau presennol yn well. Dywedasant eu bod wedi gwneud y dewis anodd i leihau eu sylfaen staffio eu hunain er mwyn lleihau eu defnydd o'r lefel adnoddau gyffredinol, er mwyn diogelu adnoddau i'w defnyddio mewn mannau eraill. Roedd Chwaraeon Cymru yn glir nad yw partneriaethau chwaraeon rhanbarthol yn ymwneud â bygwth timau datblygu chwaraeon mewn awdurdodau lleol; maent o'r farn bod y rhain yn allweddol o ran darparu'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar y bartneriaeth chwaraeon rhanbarthol i gyfeirio adnoddau'n briodol. Yn ogystal, cadarnhaodd Chwaraeon Cymru fod awdurdodau lleol a phartneriaid yn Chwaraeon Gogledd Cymru yn gwneud cyfraniadau o fath arall.

KF28. O ran gweithio mewn partneriaeth leol a gwybodaeth gymunedol, clywodd yr Ymchwiliad pa mor bwysig yw cael gwybodaeth leol am yr hyn a fydd yn gweithio mewn gwahanol gymunedau. Mynegwyd pryderon pe bai model y bartneriaeth chwaraeon ranbarthol yn arwain at leihad mewn swyddi swyddogion chwaraeon, y byddai hyn yn arwain at golli gwybodaeth gymunedol a gwybodaeth am bartneriaethau. Yn ogystal, byddai newidiadau staff, a ffordd ranbarthol o weithio, yn cael effaith negyddol ar weithio mewn partneriaeth leol. Yn olaf, ni fyddai partneriaeth chwaraeon ranbarthol yn cymryd rhan mewn Digwyddiadau Mawr yn yr un modd ag y mae awdurdodau lleol ac felly byddai'n ei chael yn anodd denu'r allgymorth chwaraeon cymunedol ychwanegol y gall yr awdurdod lleol ei wneud fel rhan o'r broses o gynllunio Digwyddiadau Mawr.

**Ble mae Caerdydd arni nawr**

KF29. Yn 2014, sefydlodd Cyngor Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd Gyd-fenter, Chwaraeon Caerdydd, i ddarparu gwasanaethau chwaraeon cymunedol yn y ddinas. Trosglwyddwyd staff Cyngor Caerdydd i dîm Chwaraeon Caerdydd. Mae'r dull presennol o ymdrin â chwaraeon cymunedol yng Nghaerdydd yn gweithio'n dda, gyda gwaith wedi'i dargedu i hybu cyfraddau cyfranogi ar gyfer sectorau allweddol o'r boblogaeth, gweithio ar draws ffiniau, gweithio mewn partneriaeth â chlybiau chwaraeon a chyrff llywodraethu a datblygu cronfa o dros 400 o wirfoddolwyr i gynorthwyo mewn digwyddiadau chwaraeon mawr.

KF30. Mae Chwaraeon Caerdydd yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd ac amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu Cynllun Chwaraeon Lleol blynyddol, sy'n cyflawni'r blaenoriaethau a'r ystyriaethau allweddol uchod ac sy'n cael ei gytuno'n flynyddol gyda Chwaraeon Cymru ac sy'n cysylltu â'u Rhaglenni Cenedlaethol craidd. Mae Chwaraeon Caerdydd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Chwaraeon Cymru, yn seiliedig ar gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun Chwaraeon Lleol, ac maent wedi bod yn canmol y gwaith sy'n digwydd yng Nghaerdydd, fel y nodir mewn adroddiadau blynyddol.

KF31. Mae rôl yr awdurdod lleol mewn Chwaraeon Cymunedol yn bwysig, ac mae gweinyddiaethau olynol wedi gweithio i feithrin perthynas â chymunedau chwaraeon yng Nghaerdydd. Mae hyn yn caniatáu i Gyngor Caerdydd fanteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau hyn, er enghraifft drwy gynyddu'r ddarpariaeth o chwaraeon cymunedol sy'n gysylltiedig â Digwyddiadau Mawr, megis darparu allgymorth rygbi yn Llanrhymni, Adamsdown, Glan yr Afon a Threlái fel rhan o Rygbi 7 pob ochr yr Urdd.

**Ble Nesaf?**

KF32. Mynegwyd pryderon y byddai'r cyfuniad o'r holl faterion a amlygwyd uchod yn golygu yr effeithir yn arbennig ar Gaerdydd, gyda gostyngiad mewn chwaraeon cymunedol yn gyffredinol ac ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig yn arbennig. Roedd rhai tystion o'r farn bod hyn yn arbennig o annheg o gofio bod y bartneriaeth Gyd-fenter bresennol yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â chyfraddau cyfranogi a gweithgarwch. Roedd nifer o dystion yn teimlo y byddai Caerdydd dan anfantais oherwydd problemau mewn rhannau eraill o Gymru.

KF33. O safbwynt Caerdydd, mae pryder penodol y bydd yr ôl troed arfaethedig yn gwneud niwed i Gaerdydd. Fodd bynnag, clywodd yr Aelodau hefyd eu bod, o safbwynt ardaloedd eraill, yn pryderu y bydd Caerdydd yn 'cymryd drosodd' ac y bydd anghenion yr ardaloedd hyn yn cael eu cysgodi gan lefelau'r angen yng Nghaerdydd. Cafodd yr Ymchwiliad ei daro gan y ffaith, er bod y deiliaid presennol yn Chwaraeon Cymru yn glir na fyddent yn gadael i hyn ddigwydd, gallai fod newidiadau staff yn y dyfodol ac felly gallai'r sefyllfa hon newid. Mae ansicrwydd ynghylch y fframwaith llywodraethu a gwneud penderfyniadau yn dwysáu'r pryderon hyn.

KF34. Gofynnodd yr Ymchwiliad i dystion am unrhyw syniadau amgen ar gyfer ad-drefnu darpariaeth chwaraeon cymunedol, o ystyried y dirwedd o leihau adnoddau a'r angen i roi hwb i'r cyfraddau ymgysylltu a chyfranogi. Daeth yr awgrymiadau canlynol i'r amlwg:

a. Ôl troed Caerdydd yn unig
b. Ôl troed Caerdydd a Bro Morgannwg
c. Model Cyd-fenter
d. 'Fel y mae' a mwy.

KF35. Mae'r Ymchwiliad yn nodi y byddai'r ymatebion hyn yn arwain at lawer o fanteision o bartneriaeth chwaraeon ranbarthol Canolbarth y De arfaethedig heb gynifer o anfanteision.

**Sut i baratoi**

KF36. Nododd yr Ymchwiliad y camau allweddol canlynol wrth baratoi ar gyfer y Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol:

a. Cofnodi data cywir am gyfraddau cyfranogi
b. Mabwysiadu Meddylfryd System 'Cymuned Gyfan'
c. Cydgysylltu sgyrsiau ar draws y sector
d. Osgoi plwyfoldeb
e. Meithrin ymddiriedaeth ac ymrwymiad.

KF37. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod angen i bartneriaid berchen ar y bartneriaeth a'i datblygu, a helpu i lunio, tyfu a meithrin y bartneriaeth. Credant fod rôl glir i awdurdodau lleol yn y broses hon; nid rôl Chwaraeon Cymru yw arwain y bartneriaeth. Mae'r Ymchwiliad yn deall yr angen i bartneriaethau ddod o hyd i'w momentwm eu hunain. Fodd bynnag **mae'r Aelodau'n credu bod gan Chwaraeon Cymru rôl i helpu i sefydlu partneriaeth, yn enwedig pan fydd yn amlwg bod problemau gyda hyn.**

**Gwersi gan Chwaraeon Gogledd Cymru**

KF38. Mae Chwaraeon Gogledd Cymru yn cynnwys chwe awdurdod lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru (gan gynnwys chwe chymdeithas dai leol), Consortia Addysg Gogledd Cymru, a Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'n cysylltu â sefydliadau megis Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'n debygol y bydd y Bartneriaeth Chwaraeon yn cysylltu â chyrff rhanbarthol eraill megis, er enghraifft, Bwrdd

Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru.

KF39. Chwaraeodd yr awdurdodau lleol ran weithredol yn y broses o'i ffurfio, gydag un o'r Prif Weithredwyr yn arwain y prosiect. Cyfarfu Bwrdd Cydweithredu bob mis i feithrin ymddiriedaeth ac ymrwymiad, a datblygodd Grŵp Cynllunio Rhanbarthol y cynllun strategol ac mae bellach yn gweithio ar weithredu'r cynllun cyflawni rhanbarthol yn ogystal â'r gallu i sganio'r gorwel am risgiau, cyfleoedd ac angen rhanbarthol yn y dyfodol.

KF40. Datblygwyd model llywodraethu Chwaraeon Gogledd Cymru i fodloni gofynion y Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth a Fframwaith Gallu Chwaraeon Cymru ac fe'i penderfynwyd gan aelodau'r bartneriaeth yn dilyn adolygiad manwl ac ar ôl arfarnu’r opsiynau.

KF41. Mae Bwrdd Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru yn seiliedig ar sgiliau, dan arweiniad Cadeirydd a gafodd ei recriwtio'n allanol. Mae wedi penodi Cyfarwyddwr Rhanbarthol a swyddogion cyflogedig eraill.

KF42. Nid yw swm cyllid Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru wedi newid o'r swm a arferai fynd i'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth wedi nodi adnoddau ychwanegol i symud ymlaen yn rhagweithiol yn ogystal ag ymrwymiadau unigol aelodau’r bartneriaeth a'u rolau arwain ac maent yn gwneud cyfraniadau o fath arall lle bo angen. Yn ychwanegol mae’r bartneriaeth eisoes wedi denu cyllid ychwanegol drwy ei phartneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac maent wrthi'n cysylltu â 'Get North Wales Moving'. Mae Chwaraeon Gogledd Cymru hefyd yn bwriadu archwilio partneriaethau masnachol a phartneriaethau ffrwd refeniw eraill wrth symud ymlaen.

KF43. Mae Chwaraeon Gogledd Cymru wedi dechrau sgyrsiau am sut i ailddyrannu cyllid yn seiliedig ar angen, gyda rhaglennu yn y dyfodol yn cael ei arwain gan dystiolaeth, wedi'i ategu gan fewnwelediad rhanbarthol.

KF44. Eglurodd Chwaraeon Cymru fod dull cofnod dysgu wedi'i fabwysiadu drwy gydol y cyfnod mabwysiadu cynnar. Mae'r gwersi allweddol hyd yma yn cynnwys:

a. Mae nodi pwrpas a rôl yn gynnar yn bwysig iawn – mater i'r bartneriaeth yw penderfynu, nid Chwaraeon Cymru – mae angen galluogi partneriaid i ddod at ei gilydd a sefydlu hyn
b. Pobl a phartneriaethau - mae angen cydnabod bod y rhain eisoes yn brysur ac yn ymroddedig a rhaid rhoi amser a lle iddynt weithredu a bod yn gyfforddus â'r hyn y maent yn ei wneud – gall Chwaraeon Cymru gynnig rhywfaint o adnodd bach i helpu'r broses hon
c. Arweinwyr partneriaeth, mae Chwaraeon Cymru yn cynnig cymorth
d. Y bartneriaeth ranbarthol sydd i nodi'r ffordd orau o gasglu partneriaid i ddiwallu anghenion y rhanbarth – mae'n golygu y bydd rhai sgyrsiau anodd, ond mae Chwaraeon Gogledd Cymru wedi llwyddo i wneud hyn
e. Mae meithrin ymddiriedaeth ac ymrwymiad yn allweddol
f. Cyllid – wedi gallu defnyddio cyllid na fyddai wedi'i gael fel arall.

KF45. Dechreuodd y gwaith o ddatblygu Chwaraeon Gogledd Cymru 5-6 mlynedd yn ôl, gyda Chwaraeon Gogledd Cymru yn dod yn weithredol 6-8 mis yn ôl ac felly mae'n rhy gynnar i wybod ei effaith. Fodd bynnag, roedd yr Ymchwiliad yn synnu o weld nad oes unrhyw adroddiadau wedi'u llunio ar y broses o sefydlu'r bartneriaeth a'r gwersi sy'n dod i'r amlwg a allai fod yn ddefnyddiol i bartneriaethau eraill. Mae'r Aelodau'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol deall a rhannu'r gwersi gan Chwaraeon Gogledd Cymru, er y bydd gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd o ran demograffeg, angen, a chyfraddau ymgysylltu a chyfranogi, gan mai gwersi ar greu partneriaeth lwyddiannus a gweithredu'r dull newydd fydd o werth.

# ARGYMHELLION

Ar ôl ystyried y dystiolaeth i'r Ymchwiliad hwn, yn ogystal â'n gwybodaeth am wasanaethau chwaraeon cymunedol yng Nghaerdydd drwy ein gwaith craffu eraill a'n gwaith ward, nid yw'r Aelodau wedi'u hargyhoeddi bod y cynigion presennol gan Chwaraeon Cymru er budd Caerdydd a'n cymunedau difreintiedig. Felly, mae Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn gwneud yr argymhelliad canlynol.

*R1. Y Cabinet i fynd ar drywydd dichonoldeb cynnal ein partneriaeth Cyd-fenter bresennol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ar frys gyda Chwaraeon Cymru yn hytrach nag ymuno â Phartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol.*

Os na fydd y trafodaethau gyda Chwaraeon Cymru ar yr argymhelliad uchod yn dwyn ffrwyth, mae Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn gwneud yr argymhellion canlynol:

*R2. Y Cabinet i gymryd cynnig Chwaraeon Cymru i ymgysylltu er mwyn:*

*a. galluogi mewnbwn gwleidyddol ac adeiladu mandad gwleidyddol*
*b. Lobïo am lai o ôl troed, naill ai Caerdydd yn unig neu un yn seiliedig ar ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*
*c. Cydweithio i sicrhau cytundeb ar leihau'r ôl troed fel y nodir uchod.*

*R3. Y Cabinet i ymgysylltu'n weithredol â phroses ddatblygu'r Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol i feithrin ymddiriedaeth ac ymrwymiad.*

*R4. Y Cabinet i gydweithio â phartneriaid y Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol i gytuno ar drefniadau llywodraethu sy'n sicrhau bod llais Caerdydd yn cael ei glywed yn gymesur â maint y boblogaeth.*

*R5. Y Cabinet i geisio sicrwydd gan Chwaraeon Cymru na fydd y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer Caerdydd yn cael eu gwanhau mewn unrhyw bartneriaeth ranbarthol ac na fydd cyllid yn cael ei wanhau.*

*R6. Y Cabinet i ofyn am eglurhad gan Chwaraeon Cymru ar eu disgwyliadau sylfaenol o ran modelau llywodraethu.*

## Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant



Y Cynghorydd Nigel Howells
(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Iona Gordon



Y Cynghorydd Jane Henshaw



Y Cynghorydd Gavin Hill-John



Y Cynghorydd Chris Lay



Y Cynghorydd Thomas Parkhill



Y Cynghorydd Adrian Robson



Y Cynghorydd Abdul Sattar



Y Cynghorydd Ed Stubbs

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
Ffôn: 029 2087 2953    E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
(h) 2021 Cyngor Sir Caerdydd